

Cylch Gorchwyl: Fforwm Twristiaeth Rhanbarthol y De-orllewin

Enw	Fforwm Twristiaeth Rhanbarthol y De-orllewin (SWWRTF)
Cefndir	Sefydlwyd SWWRTF yn 2015, yn dilyn ailstrwythuro'r gwaith o ddarparu twristiaeth ranbarthol o Bartneriaethau Twristiaeth Rhanbarthol i Croeso Cymru. Fe'i cydnabyddir yn swyddogol gan Lywodraeth Cymru a'i Gweinidogion fel un o bedwar Fora Twristiaeth Rhanbarthol.
Diben	SWWRTF yw'r dull allweddol ar gyfer cyfathrebu rhwng Croeso Cymru a'r sector twristiaeth. Ei nod yw datblygu dull cydgysylltiedig o ymdrin â gweithgarwch cyfredol ac arfaethedig, a llywio dyraniadau cyllidebol rhanbarthol o amgylch blaenoriaethau'r Strategaeth Dwristiaeth Genedlaethol ar lefel ranbarthol.
Amcanion y Fforwm	Gweithredu fel modd o gyfnewid safbwyntiau a syniadau perthnasol ar faterion twristiaeth a dull cydweithio effeithiol rhwng Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid allweddol yn y rhanbarth. Rhoi cyngor, arweiniad a chysylltiadau â Croeso Cymru / Llywodraeth Cymru, Awdurdodau Lleol, Partneriaethau Rheoli Cyrchfannau, ar flaenoriaethau rhanbarthol sy'n gysylltiedig â thwristiaeth. Cryfhau'r cydweithio rhwng y Partneriaethau Rheoli Cyrchfannau yn y rhanbarth. Lledaenu gwybodaeth, penderfyniadau a thrafodaethau yn y Fforwm i'r sector twristiaeth ehangach drwy rwydweithiau sefydliadol aelodau.
Aelodaeth	Bydd y Fforwm yn cynnwys uchafswm o 35 aelod llawn amser ar unrhyw un adeg (ac eithrio swyddogion Croeso Cymru). Bydd pob aelod yn gymwys i eistedd ar y Fforwm am gyfnod o ddwy flynedd, y gellir ei adnewyddu os bydd mwyafrif aelodau'r Fforwm yn cytuno. Bydd y Fforwm Rhanbarthol yn penodi Cadeirydd ac Is-gadeirydd bob dwy flynedd o blith ei aelodaeth. Bydd aelod sy'n colli 3 Fforwm yn olynol yn colli eu hawl i eistedd ar y Fforwm. Bydd Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Fforwm yn cynrychioli barn y Fforwm yn ystod cyfarfodydd ddwywaith y flwyddyn gyda'r Dirprwy Weinidog Diwylliant Chwaraeon a Thwristiaeth
Gweithredu	Cynhelir tri chyfarfod y flwyddyn. Bydd yr ysgrifenyddiaeth yn cael ei darparu gan Dîm Rhanbarthol Croeso Cymru. Mae'r Aelodau'n ymrwmo i'r grŵp drwy gymryd rhan yn y gwaith o rannu gwybodaeth gan gymryd rhan reolaidd a gweithredol yn y cyfarfodydd. Gall Aelodau nad ydynt yn gallu bod yn bresennol enwebu cynrychiolydd arall.
Gwerthoedd/Ethos	Mae'r Aelodau'n gyfrifol am greu awyrgylch gwaith cefnogol, anfeirniadol lle caiff barn pawb ei chlywed a'i hystyried yn gyfartal a'i thrin â pharch. Mae'r Aelodau'n cynrychioli ac yn gweithredu ar ran eu sefydliad a gynrychiolir yn y Fforwm. Bydd disgwyl i bob aelod o'r fforwm: <ul style="list-style-type: none"> • bod yn eiriolwr dros y fforwm • datganoli'r dysgu i eraill yn y rhanbarth h.y. cyfleoedd ariannu, digwyddiadau, cymorth marchnata ac ati. • codi pryderon y diwydiant o fewn y grŵp a chwilio'n weithredol am ffyrdd o ddod o hyd i atebion • bod yn arweinydd diwydiant / arbenigwr a chasglu gwybodaeth am dwristiaeth o'ch maes arbenigedd i'w rannu gyda'r grŵp • cyfrannu at drafodaethau • cyfleu negeseuon y Fforwm i'r diwydiant twristiaeth ehangach
Llywodraethu	Bydd y Cadeirydd yn sicrhau bod holl weithgareddau SWWRTF yn cydymffurfio â'r Cylch Gorchwyl. Rhaid i fwyafrif o'r aelodau gytuno ar unrhyw newidiadau i'r Cylch Gorchwyl mewn cyfarfod Fforwm.